

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod drwy Zoom ar nos Lun yr 8fed o Fawrth 2021 am 8.00yh.

Cynghorwyr yn bresennol: Linda Davies (Cadeirydd), Ann Sillars, Eirian Howells, Ambrose Lewis, Alyson Harries, Andrew Jones, John Phillips, Dyfed Davies & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derrick Harries & Arwyn Jones
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**

Agorodd Linda Davies y cyfarfod drwy ddiolch i bawb am fynychu cyfarfod Zoom. Gwiriodd y Cadeirydd fod pawb yn medru gweld a chlywed y cyfarfod.
3. **Datgan Buddiannau:**

Nododd Y Cynghorydd Sir Jean Lewis buasau'n gadael y cyfarfod pan yn trafod materion cynllunio.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 11eg o Ionawr 2021 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe fydd y cofnodion yn cael eu llofnodi gan y cadeirydd yn y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Ronanny – Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd Mr Tony Williams wedi medru trefnu cyfarfod safle.
 - Diffibriliwr Alma a Gelliwen - Nid oedd y clerc wedi medru darganfod unrhyw ariannu tuag at gael diffibriliwr ond byddai'n parhau i chwilio.
 - Cyflymder traffig drwy Trelech – Roedd manylion y trefniadau tawelu traffig wedi eu dosbarthu i bawb cyn y cyfarfod. Nodwyd fod y gwaith i fod cael ei gwblhau yn y flwydlyn ariannol yma. Roedd y manylion hefyd wedi cael ei rannu ar Weplyfr ac roedd wedi ei arddangos ym mlwch hysbys y Gymuned yn Nhrelech. Diolchodd y Cynghorwyr y Cynghorydd Sir Jean Lewis am ei gwaith caled gyda'r system ymgeisio.
 - Dŵr Cymru – roedd ebost wedi ei ddanfon yn flaenorol i'r Cynghorwyr wrth Dŵr Cymru yn cyfaeddef fod angen gwaith diweddar ar y llinell ond oherwydd diffyg arian, nid oedd yn bosib ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, byddai Dŵr Cyru yn newid eu system monitro fel bod unrhyw gollyngiadau yn cael eu atgyweirio mor gyflym a phosib. Gofynnodd y Cynghorwyr i'r clerc gysylltu gyda'r preswylwyr ar ddiwedd y llinell i weld a oedd y pwysedd dŵr wedi gwella.
 - Dŵr Cymru – lefelau ammonia. Roedd Dŵr Cymru wedi ymateb nad oedd Cyfoedd Naturiol Cymru wedi gosod unrhyw derfyn ar y lefelau a edir gael ei adael allan i'r afon. Cododd y Cynghorwyr ei pryderon am y gobygliadau iechyd gan fod plant yn aml yn chwarae yn yr afon yn Clunfelyn. Gofynwyd y cwestiwn hefyd pam fod Dŵr Cymru yn cymheryd samplau o'r afon os nad oedd unrhyw gyfyngiadau. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda dŵr Cymru gyda phryderon y Cynghorwyr.
 - Castell Mawr – Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir ynghlyn â llifogydd yn Castell Mawr. Roedd gweithwyr y Cyngor wedi bod allan unwaith ond nid oedd y broblem wedi ei ddatrys ac roeddent i ddod allan eto.
 - Cais Cynllunio PL/01003 – Adeilad amaethyddol arfaethedigar tir ger Maesllan, Penybont. Rhannwyd gwybodaeth am y cais i'r cyfarfod.

6. Gohebiaeth

6.1) Roedd Sefydliad y Meched Trelech wedi danofn dyddiadu i'r dyddiadur ac roedd y clerc wedi diweddarau y wefan yn unol a hyn.

6.2) Roedd Canolfan Gymunedol Penybont wedi danfon anfoen am logi'r Neuadd ar gyfer cyfarfodydd. Cytunwyd i dalu'r anfoneb am £50.

6.3) Gofynnodd y clerc am ad-daliad am gostau adnoddau o £23.40, a stampiau am £2.94 a £8.50. Cytunwyd i dalu'r clerc £34.84 am gostau.

6.4) Roedd Canolfan Cymunedol Trelech wedi codi pryderon am y mur ger y brif ffordd gan ei bod o bosib yn dangos arwyddion o symudiad. Nid oedd wedi cael ei gadarnhau a oedd hyn yn hanesyddol a'i peidio. Cytunodd y clerc i gysylltu a CHyngor Sir Caerfyrddin i weld a byddau eu archwilwyr strwythurol yn medru edrych arno gan ei fod wrth ymyl y brif ffordd.

6.5) Roedd Neuadd Ardal Tregroes wedi danfon llythyr yn gofyn am fanylion cyn-leoliad y darlledwr BBC John Humphrys yn Nhrelech. Nid oedd y rheswm am y cais yn glir ac felly byddai'r clerc yn gofyn am fwy o fanylion ermwyn cydymffirio gyda rheolau diogelu data.

7. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £4,152.45

8. Unrhyw Fater Arall

8.1) Nid oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon yr anfoneb blynyddol am y gost o oleuo'r strydoedd. Llynedd roedd y gost yn £1,258.70. Cytunodd y Cyngorwyr fedrai'r clerc dalu'r anfoneb yn y flwyddyn ariannol yma a bod y gost yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

8.2) Archwilydd Mewnol 2020/21. Roedd y clerc wedi cael ei hysbysu fod yr archwilydd a oedd wedi cael ai apwyntio ar hyn bryd yn sâl yn yr ysbyty. Yn dilyn y wybodaeth hyn, roedd y clerc wedi cysylltu gyda dau gyfrifydd arall am amcan prisiau am ymwneud a'r gwaith. Cytunwud i apwyntio DMB Davies i ymgymryd a'r gwaith.

8.3) Roedd y clerc wedi cysylltu gyda adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ymgymryd a ail-wneud y ffens ar y bont yn Dinas gan fod y ffens diogelwch dros dro wedi bod yno ers tipyn o amser.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb am fynychu a chaewyd y cyfarfod am 8.35yh.